

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
04/10/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau
Questions to the Minister for Enterprise, Innovation and Networks
- 4 Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Tlodi Tanwydd
Fuel Poverty

Q12 Michael German: Will the Minister make a statement on the impact of energy prices on fuel poverty in Wales?
OAQ0866(SJR)

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): 'Living in Wales' indicates that, in 2004, 130,000 households were in fuel poverty. As a result of energy price rises, we estimate that another 30,000 households were in fuel poverty by the end of 2005. I have commissioned models to assess the impact of future energy price changes.

C12 Michael German: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith prisiau ynni ar tlodi tanwydd yng Nghymru?
OAQ0866(SJR)

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Yn ôl 'Byw yng Nghymru', yr oedd 130,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2004. O ganlyniad i gynnydd mewn prisiau ynni, amcangyfrifir bod 30,000 o aelwydydd eraill yn byw mewn tlodi tanwydd erbyn diwedd 2005. Yr wyf wedi comisiynu modelau i asesu effaith newidiadau mewn prisiau ynni yn y dyfodol.

Aelwydydd sy'n Agored i Niwed Ariannol
Financially Vulnerable Households

Q13 Brynle Williams: What discussions has the Minister had with UK Government Ministers concerning the protection of financially vulnerable households in Wales?
OAQ0852(SJR)

Edwina Hart: I frequently raise my concerns

C13 Brynle Williams: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch amddiffyn aelwydydd sy'n ariannol agored i niwed yng Nghymru?
OAQ0852(SJR)

Edwina Hart: Yr wyf yn mynegi fy

regarding the financially vulnerable with Whitehall counterparts. In August, I wrote to the Secretary of State for Work and Pensions about the impact of the tax and benefits system on child poverty, and I have raised similar matters with the Under-Secretary of State for Wales.

mhryderon ynghylch pobl sy'n ariannol agored i niwed yn aml gyda'm cyd-Weinidogion yn Whitehall. Ym mis Awst, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ynghylch effaith y system dreth a budd-daliadau ar dlodi ymhlith plant, ac yr wyf wedi codi materion tebyg gydag Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Nifer y Cartrefi Fforddiadwy sydd ar Gael The Availability of Affordable Homes

Q14 Rosemary Butler: Will the Minister give an update on Assembly Government initiatives to increase the availability of affordable homes in Wales? OAQ0835(SJR)

C14 Rosemary Butler: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy sydd ar gael yng Nghymru? OAQ0835(SJR)

Edwina Hart: We have increased the social housing grant programme by 62 per cent over the budget period and introduced a comprehensive package of policy measures and guidance. I am also very pleased that the Social Justice and Regeneration Committee has identified the provision of affordable housing as its top priority for additional resources in the current spending review.

Edwina Hart: Yr ydym wedi cynyddu'r rhaglen grantiau tai cymdeithasol 62 y cant dros gyfnod y gyllideb ac wedi cyflwyno pecyn cynhwysfawr o ganllawiau a mesurau polisi. Yr wyf hefyd yn falch iawn bod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi nodi mai darparu tai fforddiadwy yw ei brif flaenoriaeth o ran adnoddau ychwanegol yn yr adolygiad o wariant presennol.

Prif Lwyddiannau (De Caerdydd a Phenarth) Main Achievements (Cardiff South and Penarth)

Q15 Lorraine Barrett: Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's main achievements in the field of social justice and regeneration in Cardiff South and Penarth? OAQ0861(SJR)

C15 Lorraine Barrett: A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio yn Ne Caerdydd a Phenarth? OAQ0861(SJR)

Edwina Hart: Cardiff South and Penarth benefits from a number of schemes that deliver our social justice and regeneration agenda. Community facilities and activities programme grant schemes support regenerating in the area. Communities First funding has been committed to two Communities First areas. Community safety partnerships are impacting on crime and disorder.

Edwina Hart: Mae De Caerdydd a Phenarth yn elwa ar nifer o gynlluniau sy'n darparu ein hagenda cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio. Mae cynlluniau grant y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yn cefnogi adfywio yn yr ardal. Mae cyllid Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei ymrwymo i ddwy ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae partneriaethau diogelwch cymunedol yn effeithio ar drosedd ac anhrefn.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau Questions to the Minister for Enterprise, Innovation and Networks

Maes Awyr Rhyngwladol Newydd New International Airport

Q11 William Graham: Will the Minister make a statement on the feasibility of locating a new international airport in the river Severn estuary area? OAQ1021(EIN)

C11 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddichonoldeb lleoli maes awyr rhyngwladol newydd yn ardal aber afon Hafren? OAQ1021(EIN)

The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies): The Department for Transport's White Paper, 'The Future of Air Transport', published in December 2003, concluded that a new airport in south-east Wales would not be financially viable and would not attract sufficient economic or regeneration benefits to justify its development. This position has not changed.

Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies): Daeth Papur Gwyn yr Adran Drafnidiaeth ar ddyfodol trafnidiaeth awyr, 'The Future of Air Transport', a gyhoeddwyd yn 2003, i'r casgliad na fyddai maes awyr newydd yn neddwyrain Cymru yn ddichonadwy yn ariannol ac na fyddai'n denu digon o fanteision economaidd ac adfywio i gyfiawnhau'r gwaith o'i ddatblygu. Nid yw'r sefyllfa hon wedi newid.

Dyfodol Visteon The Future of Visteon

Q12 Peter Black: Will the Minister make a statement on the future of Visteon? OAQ1029(EIN)

C12 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Visteon? OAQ1029(EIN)

Andrew Davies: The recent press articles on a possible sale of the Visteon facility in Swansea are based on speculation and not hard facts. My officials are in constant discussions with the management and will do everything possible to ensure that the factory stays open.

Andrew Davies: Mae'r erthyglau diweddar yn y wasg ar werthu ffatri Visteon yn Abertawe yn seiliedig ar ddamcaniaethau ac nid ffeithiau. Mae fy swyddogion yn cynnal trafodaethau parhaus â'r rheolwyr a byddant yn gwneud popeth posibl i sicrhau y bydd y ffatri'n aros ar agor.

Gweithgynhyrchu Manufacturing

Q13 Mick Bates: Will the Minister make a statement on manufacturing in Wales? OAQ1019(EIN)

C13 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ1019(EIN)

Andrew Davies: In June 2006, manufacturing accounted for 14.4 per cent of total employee jobs in Wales, compared to 11.4 per cent across the UK as a whole.

Andrew Davies: Ym mis Mehefin 2006, yr oedd gweithgynhyrchu yn gyfrifol am 14.4 y cant o'r holl swyddi yng Nghymru, o'i gymharu ag 11.4 y cant ledled y DU yn gyffredinol.

Rhaglenni Cymorth i Fusnesau Business Support Programmes

Q14 Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on business support programmes in Wales? OAQ1023(EIN)

Andrew Davies: In accordance with the strategy set out in 'Wales: A Vibrant Economy', the Welsh Assembly Government continues to invest in creating a favourable environment for business and improving the competitiveness of Welsh firms, through programmes such as General Support for Business, Business Eye, Assembly investment grants and KB4B.

C14 Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni cymorth i fusnesau yng Nghymru? OAQ1023(EIN)

Andrew Davies: Yn unol â'r strategaeth a nodwyd yn 'Cymru: Economi yn Ffynnu', mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn creu amgylchedd ffafriol i fusnesau a gwella natur gystadleuol cwmnïau yng Nghymru, drwy raglenni fel Cymorth Cyffredinol i Fusnesau, Llygad Busnes, grantiau buddsoddi'r Llywodraeth a KB4B.

Gwella Diogelwch y Ffyrdd Improving Road Safety

Q15 Christine Gwyther: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government action to improve road safety and reduce accidents in Wales? OAQ0992(EIN)

Andrew Davies: We continue to develop and implement our wide-ranging road safety strategy, which set casualty reduction targets to be met by 2010. The 2005 casualty figures show that we are now over three-quarters of the way towards the target of getting a 40 per cent reduction in the number of people killed or seriously injured.

C15 Christine Gwyther: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella diogelwch ar y ffyrdd a gostwng nifer y damweiniau yng Nghymru? OAQ0992(EIN)

Andrew Davies: Yr ydym yn parhau i ddatblygu a gweithredu ein strategaeth eang ei chwmpas ar ddiogelwch ar y ffyrdd, sy'n pennu targedau i'w cyrraedd erbyn 2010 o ran lleihau nifer y bobl a gaiff eu lladd neu eu hanafu. Mae ffigurau 2005 ar gyfer nifer y bobl a gafodd eu hanafu neu eu lladd yn dangos ein bod erbyn hyn dri chwarter o'r ffordd tuag at y targed o sicrhau gostyngiad o 40 y cant o ran nifer y bobl a gaiff eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.

Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

Hybu Cydraddoldeb (Dwyrain De Cymru) The Promotion of Equality (South Wales East)

Q14 William Graham: Will the Minister make a statement on the promotion of equality in South Wales East? OAQ0268(BM)

The Business Minister (Jane Hutt): The Welsh Assembly Government is committed to promoting equality across Wales. In South Wales East, for example, I supported the launch of the Newport Somali Association community needs report earlier in the year,

C14 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu cydraddoldeb yn Nwyrain De Cymru? OAQ0268(BM)

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ledled Cymru. Yn Nwyrain De Cymru, er enghraifft, cefnogais achlysur lansio adroddiad y Gymdeithas Somali yng Nghasnewydd ar anghenion

which covers community safety, health, language and literacy.

cymunedol yn gynharach eleni, sy'n ymdrin â diogelwch cymunedol, iechyd, iaith a llythrennedd.

Gwahaniaethu ar Sail Rhyw Sex Discrimination

Q15 Eleanor Burnham: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to tackle gender discrimination? OAQ0269(BM)

C15 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail rhyw? OAQ0269(BM)

Jane Hutt: The Welsh Assembly Government is committed to countering gender discrimination. For example, the Assembly Government has provided match funding to the Women's Workshop, which aims to address the cultural and institutional barriers that deter women from embarking on and continuing in careers in engineering, construction and technology throughout Wales.

Janet Hutt: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i atal achosion o wahaniaethu ar sail rhyw. Er enghraifft, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi arian cyfatebol i'r Gweithdy i Fenywod, sy'n anelu at fynd i'r afael â rhwystrau diwylliannol a sefydliadol sy'n atal menywod rhag dechrau gyrfa a pharhau mewn gyrfa ym maes peirianeg, adeiladu a thechnoleg ledled Cymru.